
# LLWYBR Y MORWYR











Mae Cors Geirch yn rhan o Ardal Gadwraeth Arbennig Corsydd Llŷn, ac yn safle gwlyptir Ramsar. Cors Geirch yw un o'r enghreifftiau gorau o'r math yma o gynefin ar dir mawr Cymru ar gyfer anifeiliaid di-asgwrn-cefn ac mae'n cynnal nifer o rywogaethau a restrir yn y Llyfr Data Coch.
Mae britheg y gors, malwen droellog Geyer, malwen droellog Desmoulin, y pryf cacynaidd, gwalchwyfyn gwenynog ymyl gul, llygoden bengron y dŵr Arvicola terrestris, y fronfraith Turdus philomelos a'r ehedydd Alauda arvensis i gyd yn rhywogaethau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth sy'n bresennol ar safle Cors Geirch.


Mae'r llwybr hwn yn mynd â'r cerddwr ar daith 12km o lan i lan ar draws Penrhyn Llŷn. Mae'n llwybr ar hyd y penrhyn y gellir ei gerdded o Nefyn i Abersoch neu'r ffordd arall. Mae'r llwybr hwn yn mynd â chi naill ai drwy neu heibio ardaloedd o gynefinoedd naturiol sydd yn Llŷn, o bentiroedd yr arfordir trwy rostiroedd, dyffrynnoedd coediog a'r grug ar gopaon y mynyddoedd Cyn-gambriaidd. Yn ôl y disgwyl, mewn ardal lle mae un o ieithoedd brodorol hynaf Ewrop yn parhau yn iaith fyw, mae'r tirwedd Celtaidd yma wedi ei wasgaru gyda henebion ac aneddiadau o'r cyfnod cynhanes hyd at y cyfnod anghydffurfiol cymharol ddiweddar. Mae'r enw Llwybr y Morwyr wedi tarddu o'r hen lwybrau ar draws y penrhyn a gerddwyd gan y morwyr yn y 19eg ganrif.




MORWYR NEFYN



NEFYN



ABERSOCH



PORTHMADOG

Gorffennodd William Alexander Madocks adeiladu'r cob ym Mhorthmadog ym 1824. Oddi yma yr allforiwyd holl lechi chwareli Ffestiniog. Adeiladwyd Rheilffordd Ffestiniog rhwng 1833 a 1836 i gludo'r llechi o chwareli 'Stiniog i Borthmadog lle llwythid y llechi i'r llongau.
Ym 1833 dywedodd Curad y plwyf fod deuparth trigolion Nefyn yn "bobl y môr" ac roedd cyfrifiad 1841 yn dangos fod 135 o drigolion Nefyn yn llongwyr. Arferai'r llongau angori o gwmpas ynysoedd Tudwal tra'n disgwyl y llongwyr i beilota'r llongau i mewn i borth Madocks. Y llwybrau yma a arferai gael eu cerdded gan y llongwyr ar draws Llŷn, o Nefyn i Lanbedrog ac Abersoch yw'r llwybrau a elwir yn lwybrau'r morwyr.







MADRYN

Ar ben Garn Boduan mae llwyfan creigiog o dir tua 250m uwchlaw'r môr ac arno fryngaer fawr o Oes yr Haearn sydd tua 10 hectar o faint. Ynddi mae olion tua 170 o gytiau cerrig crynion, yn amrywio rhwng 5.2m a 7.3 metr ar draws.







PANDY

Mae Garn Fadyn yn fynydd amlwg ar benrhyn Llŷn ac ar gopa'r mynydd mae olion bryngaer o'r Oes Haearn, a chastell canoloesol. Mae'n ymddangos fod dau gyfnod i'r fryngaer - y cyfnod cyntaf yn amgáu ardal oddeutu 4.8ha o faint ac wedi'i ddiffinio gan wal gerig adfeiliedig gyda mynedfeydd i'r gogledd a'r de. Yr ail gyfnod yn amgáu ardal lawer mwy ac fe'i diffinnir gan furiau allanol sydd wedi cadw'n well, eto gyda mynedfeydd i'r gogledd a'r de.
Mae'r castell canoloesol yn coroni rhan uchaf y copa, gydag ymyl serth i'r gorllewin. Yma defnyddiwyd platfform cul o graig fel motte parod. Soniodd Gerallt Gymro am Garn Fadrun fel un a adeiladwyd o'r newydd ym 1188, ac mae'n rhan o glwstwr bach o gestyll cynnar o gerrig a adeiladwyd yng Ngwynedd ar ddiwedd y ddeuddegfed ganrif. Ni adeiladwyd y rhain i wrthsefyll goresgyniad estron, ond yn hytrach roeddent yn fynegiant o bŵer ac arglwyddiaeth Tywysog yn y cyfnod ansefydlog yn dilyn marwolaeth Owain Gwynedd ym 1170 a rhaniad dilynol y sir rhwng ei feibion.